Lle Natur Cymunedol Henllan

Disgrifiad o Luniau i Bobl Ddall

Mae'r Safle Natur Cymunedol arfaethedig yn y cae y tu ôl i Ffordd Bryn y Garn ar ymyl gogleddol y pentref. Byddai mynediad trwy'r porth presennol o'r ffordd i Drefnant, a fyddai'n cael ei wella, gan gynnwys estyniad i'r llwybr troed o Ffordd Bryn y Garn.

Byddai coed yn cael eu plannu yn y rhan o'r cae sydd agosaf at y giât fynediad er mwyn cysylltu natur â'r coed ar draws y ffordd. Byddai llannerch yn cael ei chynnwys yn y coetir. Byddai coed hefyd yn cael eu plannu i greu gwrych newydd ar hyd y ffin yng nghefn y tai er mwyn gwarchod preifatrwydd.

Byddai dolydd blodau gwyllt yn cael eu creu ym mhrif ran ganolog y cae, gyda phwll, banc gwenyn, pyst tylluanod ac ystafell ddosbarth awyr agored i wella bioamrywiaeth a chyfleoedd addysgol. Ym mhen draw'r cae byddai mannau mwy ffurfiol hefyd yn cael eu darparu ar gyfer hamdden a chael picnic.

Byddai llwybrau ffurfiol ac anffurfiol yn darparu cylchrediad drwy'r safle. Byddai meinciau'n cael eu gosod i alluogi ymwelwyr i eistedd a mwynhau'r Safle Natur Cymunedol. Ym mhob rhan o'r safle, byddai rhai coed hirgyff unigol yn cael eu plannu.